

FE WYR fy nghyfeillion agosa' i'n dda na alla' i fod yng nghwmni'r un enaid byw yn hir heb fy mod i'n mynnu dweud rhyw beth naill ai am John Williams, Brynsiencyn, neu am griced! Braff y tro hwn ydi cyfuno'r ddau destun? Nid bod angen ymddiheuro nac unrhyw ymgyfiawrhad dros wneud hynny chwaith — er na fu 'Brynsiencyn' erioed, hyd y gwn i, yn aelod o'r M.C.C., nac yn agor y batio nac yn gwarchod wiced i'r un tim yn ei oes.

Un o uchafbwyntiau'r calendr crefyddol ers tro byd yng Ngwynedd bellach yw gweld y tyrfaoedd yn cyrchu i Theatr Seilo yng Nghaernarfon i fwynhau perfformiad Cymdeithas y Gronyn Gwenith o'r Pasiant Blynnyddol.

Creadigaethau rhyfeddol y Parch Harri Parri fu nifer.

Dan y teitl 'Cannwyll yn Olau' rhoddwyd portread o Puleston, y pregethwr dall ac un o Gymry enwocaf ei gyfnod heb sôn am yr heddychwyr a'i cafodd hi'n o egr yn ystod y Rhyfel Mawr. 'Roedd y tocynnau'n brinnach nag aur, pawb yn brolio i'r cymylau, hyd yn oed y beirniaid mwyaf crintachlyd yn glaforio'n frwd!

\* \* \* \*

'ROEDD UN olygfa wedi ei lleoli mewn Cyfarfod Listio ym Mhwlheli yn 1917, tyrfa wedi dod i Neuadd y Dref i ganu caneuon rhyfel i gyfeiliant band milwrol swnllyd ac uchel swyddogion y fyddin ynghyd â Lloyd George, John Williams a Syr Henry Jones ar y llwyfan — a phobl Llŷn, yn arbennig y crymffastia' ifanc oedd yn bresennol, yn cael eu hatgoffa o'u huchel fraint yn gallu croesawu dan yr un to i'w hannerch, wleidydd byd-enwog, tywysog y pulpud Cymraeg ac athronydd disgleiria' i genhedlaeth.

Fe fanteisiodd y tri ar eu cyfle wrth reswm, 'Brynsiencyn' yn anad yr un ohonynt, gan fytheirio pethau fel:

*'Mae gwarchod cyfiawnder wedi golygu Calfaria cyn heddiw gyfeillion . . . ac y mac'r draul yn fawr gydag ambell un yn gofyn ydïo werth tybed mynd i'r fath gôst . . .*

Mae'n wir i Puleston ofyn ambell gwestiwn 'conshi' ar y diwedd. Ond chafodd o fawr o gwartans. Fe'i boddwyd gan 'Tipperary' a synau gorfoleddus cyffelyb!

Yr actor amryddawn o Lanystumdwy, H. Gwyn Roberts oedd yn chwarae rhan John Williams. Rai dyddiau cyn y perfformiad cyntaf fe alwodd Gwyn acw ar ei ffordd o'i waith. Wedi picio draw yr oedd o i gael cip ar y llun enwog hwnnw lle mae'r tri, Lloyd George, Henry Jones a John Williams yn sefyll efo'i gilydd y tu allan i Rhif 10 Stryd Downing, gyda 'Brynsiencyn' fel y cofier, yn ei lordio hi yn ei gaci a homar o sigâr rhwng bysedd eilaw chwith.

## WILLIAM OWEN, Borthygest a'r Hen Frynsiencyn a gêm o griced

'Tawn i ddim ond yn cael golwg arno,' meddai Gwyn gan gyfeirio at y llun, 'Mi fyddai gen' i amgenach syniad wedyn sut i geisio'i bortreadu . . .' gan ychwanegu fod yr iwnifform y byddai'n ei gwisgo wedi cyrraedd yr union fore hwnnw, wedi ei hanfon gan ryw gwmni hurio gwisgoedd theatrig o dueddau Manceinion.

Aeth i'w chyrchu i'r car a gwagiwyd holl gynnwys y bocs ar lawr y gegin acw, y 'sgidia', y sanau gwlan, y clôs, y cetsars, y tiwnig efo sawl 'pip' ar y ddau ben-ysgwydd, holl regalia uchel-swyddog o'r Fyddin.

Y Sam Browne — i'r rhai sy'n hyddysg mewn materion militaraid — yw'r belt lledd yr oedd pob swyddog yn ei wisgo dros ei diwnig, hwnnw sy'n codi'n groes o'r dde i'r chwith yn rhymyn lled gul dros yr ysgwydd. Fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol yn ôl pob sôn gan Syr Samuel J. Browne, un o golofnau'r Hen Ymerodraeth nad oedd fachlud i

fod arni ac fe'i bedyddiwyd wedyn wrth enw'r gwron hwnnw er sicrhau coffadwriaeth dragwyddol beraroglus iddo!

Y Sam Browne hwnnw yn anad un eitem arall ymysg y paraffanelia a gydiodd yn fy nychymyg i. Maen wir fod olion traul go arw arno erbyn hynny ond sylwais fod enw ei gynberchennog wedi ei argraffu'n annleadwy mewn inc du a llythrennau breision ar yr ochr groes iddo — un 'CAPTAIN D.R. JARDINE'.

'Rioedd!' meddyliais yn gegwrth . . . 'Nid Y D.R. Jardine, 'does bosib?'. Fe wŷr y mwyaf annysgedig yn ein plith pwy oedd hwnnw debyg — yr yglod D.R. Jardine, 'Winchester, Oxford, Surrey and the M.C.C.', neb llai!

\* \* \* \*

NEFI BLŴ! Arweinydd tîm criced Lloegr yn y tridegau cynnar, na cholodd yr un Gêm Braff allan o bymtheg fel Capten, y Cadfridog — pa air arall sydd yna? — a fartsiodd ei

fyddin o un ar ddeg yn yr ymgyrchoedd ffyrnig i ddoffi'r Bradman ifanc mewn brwydrau poethion a gwaedlyd ym Melbourne, Sydney, Perth ac Adelaide yn ystod taith '32/33. Yn wir, ac yn wir, bydd enwau Harol Larwood a D. R. Jardine a'r *Bodyline* yn dragwyddol anwahanadwy.

Eithr hyd oni phrofir 'mod i'n drysu'n llwyr, mi ddalia' i i gredu fod Sam Browne yr unig D. R. Jardine y gwn i amdano, rywsut rywfodd, wedi dod i derfyn ei rawd ddaearol mewn cornel lychlyd o gwpwrdd, eiddo ffyrn hurio gwisgoedd ar gyfer perfformiadau theatrig tua'r Manceinion 'na rywle ac iddo gael ei dyrchio allan flwyddyn neu ddwy yn ôl mewn ymateb i gais gan Henaduriaeth Llŷn ac Eifionydd am eitem o'r fath ar gyfer golygfa ym Mhasiant fy nghyfaill Harri Parri ym Mhwlheli.

Ac wrth geisio protreadu John Williams Brynsiencyn gyda Sam Browne cyn-gapten Surrey, Lloegr a'r M.C.C. yn ddigon tynn am ei ganol fis Tachwedd y flwyddyn honno, fe lwyddodd Gwyn Roberts i gyfuno elfennau o ddau bwnc y bu gen' i ddiddordeb ysol ynddynt ers hanner oes.

## G. G. EVANS yn chwipio

# Pluen Gymreig ar wyneb y dŵr

CYHOEDDWDYD tua trigain o lyfrau ar bysgota yn Saesneg, yr ochr yma i Fôr Iwerydd, mewn blwyddyn (1992). Dyna ddywedodd cyfaill o lyfrgellydd wrthyf gan ddarllen ei sgrîn. Ar ben hyn gellid ychwanegu llyfrau ar gawio plu, llyfrynau lleol a chylchgronau. Mae hefyd yn Saesneg lyfrau cynnar ar y grefft.

Mae mynd ar eu casglu gyda nifer fawr o gasglwyr eiddgar yn creu marchnad lewyrchus. Ond yn Gymraeg prin iawn ydynt ac ni chlywais am neb sydd â chasgliad neu sy'n casglu'r ychydig sydd ar gael. Hwyrach y daw hyn o erthygl, fel pluen ar wyneb llyn, ag un i'r golwg a chael ei hun yn rhwyd Golygydd Y Casglwr.

Deuthum ar draws llyfryn ar bysgota yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bodiais trwyddo'n ofalus, gyda gofal tu hwnt i reolau'r Llyfrgell, ac â pharch hiraethus canys o lyfrgell Bob Owen y daeth. (Clywn ei lais o hirbell yn bloeddio, 'Ifas, wyddoch chi i bwy ydach chi'n perthyn?')

Dyma nydd ar yr wyneb-ddalen, nid oes dyddiad:

Llawlyfr y Pysgotwr.

**Yn cynnwys Hyfforddiadau i Bob Pysgotwr yn Llynoedd ac Afonydd Mon ac Arfon gan William Roberts, Tyn y Maes, Bethesda.**

Bethesda.

Argraffwyd gan J. F. Williams.

Mae dyddiad ar ddiwedd y Rhagymadrodd, sef Ebrill 15, 1899. Ynddo cyfeiria'r awdur at y swyn a'r pleser a gaiff pysgotwr ac at fel y denir llaweroedd i lannau llyn ac afon, ond gan ychwanegu'n ddigon gwir a swta, 'ac eto, ychydig mewn cymhariaeth (sydd) o bysgotwyr llwyddiannus'.

Rhydd gyngorion buddiol fel gofalu cadw o'r golwg wrth bysgota. Argymell ddefnyddio tair pluen ar y 'cut' a thafllu i fyny'r afon. (Pwy erbyn hyn sy'n cofio 'sgota â 'gyt'? O Neilon ac nid o berfedd anifail y daw blaen llinyn heddiw.)

\* \* \* \*

DIFYRRWCH William Roberts ydoedd pysgota pluen. Nid oes, ac ni fu, yng Nghymru wahaniaethu rhwng pysgota 'gêm' a physgota 'cwrs'. Ai'r Saeson yw'r unig genedl a fynnod ddwyn obsesiwn gyda dosbarth i fyd pysgod, un math i foneddigion ac un arall i'r cyffredin?

Ond dengys y llyfr hwn fod gwerinwyr yng Nghymru yn hyddysg yn y grefft o bysgota 'gêm'. Disgrifir nifer o blu gyda sylwadau ar eu heffeithiolrwydd. Ar llyn ar y Fael Fras y bluen i'w defnyddio yw 'Aden Regen yr Yd ar gorff paun a thraed cochion'. A dyma ddisgrifiad arall, 'Pluen

Bedrisen ar Gorff clust ysgyfarnog'.

Yr oedd yr awdur yn ymwybodol fod pysgota'n denu ymwelwyr o Loegr i Wynedd — byddigion yn ddiamau. Er eu mwyn hwy, neu'n hytrach Gymro oedd yn eu hebrwng, y disgrifia ambell pluen yn Saesneg — 'Aden Cyfflyg on body the colour of iron mist and red feet'.

Mynega hefyd fod yn stesion Bethesda *landaus* a *brakes* i gludo'r ymwelwyr i Lyn Ogwen. Yno roedd pum cwch ar eu cyfer.

Ychydig o afonydd a enwir ganddo: Ogwen, wrth gwrs, ac Afon Goch ac Afon Caseg. Mae'n debyg bod ganddo fwy i'w ddweud wrth lynnoedd canys cyfeiria at rai Llanberis, Bochlywd, Coron, Crafnant, Idwal, yr Afr a Ffynnon Lloer. Yn ddiamau ei lyn ef ydoedd Llyn Ogwen. Gallwn ddyfalu pam y mae'n cydnabod 'hynawsedd' yr Arglwydd Penrhyn: tuedda pysgotwyr synio felly am landlordiaid.

Diwedda ei *Hyfforddiadau* trwy ddyddmuno'n dda i'r darllenwyr, gan gynnwys y rhai na fu'n 'bysgotwyr llwyddianus'. Yr wyf yn credu ac yn gobeithio y bydd y llyfr bychan hwn o gymorth i'r pysgotwr gael dalfa ehelaeth o pysgod bob cyfleustra gaiff i ymweled a'n hafonydd a'n llynoedd lluosog.'